



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Eich cyfeirnod  
Your reference

Ein cyfeirnod  
Our reference

Dyddiad  
Date

9 Medi 2020

Llinell uniongyrchol  
Direct line

Ebost  
Email:

Annwyl

## CAIS I FOD YN AELOD ANWEITHREDOL O CYMRU GREADIGOL

Diolch yn fawr am eich cais i fod yn Aelod o Fwrdd Cymru Greadigol. Mae'n ddrwg gennyf am yr oedi cyn rhoi unrhyw newyddion i chi ynghylch eich cais. Gwnaethom benderfynu gohirio'r broses gyfan yn sgil argyfwng COVID-19.

Mae'n bleser gen i gadarnhau eich bod wedi eich cynnwys ar y rhestr fer ar gyfer cyfweiliad a hoffem eich gwahodd i fynychu cyfweiliad ar 22 Medi am 10:00. Caiff y cyfweiliad ei gynnal drwy Microsoft Teams a bydd yn parhau am oddeutu 40 munud.

Bydd y cyfweiliad yn canolbwyntio ar eich sgiliau a'ch profiad yn y meysydd canlynol:

- Eich profiad o'r diwydiannau creadigol masnachol yng Nghymru.
- Eich dealltwriaeth o'r materion y mae diwydiannau creadigol Cymru yn eu hwynebu a'ch syniadau ar gyfer galluogi'r sector i dyfu.
- Eich dealltwriaeth o waith datblygu economaidd y Llywodraeth/y sector cyhoeddus

A fydddech cystal â chadarnhau bod y dyddiad/amser uchod yn gyfleus i chi fel y gallaf drefnu eich bod yn derbyn dolen ar gyfer ymuno?

Os ydych yn siarad Cymraeg a'ch bod yn awyddus i dderbyn cyfweiliad dwyieithog, neu os oes gennych unrhyw anghenion neu ofynion penodol o safbwynt mynychu'r cyfweiliad a fydddech cystal â rhoi gwybod i mi pan fyddwch yn cadarnhau eich cyfweiliad fel y gallwn wneud y trefniadau angenrheidiol?

Amgaeaf gopi o Egwyddorion Nolan gan y gallai'r panel dethol eich holi chi ynghylch eich dealltwriaeth o Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus.

Mae croeso i chi gysylltu â mi os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch am eich cyfweiliad.

Yn gywir

Jason Thomas

**Director**

**Culture, Sport & Tourism**